# Newyddion Bethlehem



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Haf 2018

## Croeso i'r babis newydd!

Mae yna ddathlu ar sawl aelwyd yn dilyn dyfodiad babanod newydd i'r fro:

- Cyrhaeddodd wyres newydd Gwyneth Lewis, Pentyrch - Nanw Kiti, sef merch i Sara ac Aled a chwaer fach i Elis a Steffan, Creigiau.
- Mae gan Alwyn ac Angharad, Ffynnon Taf, ŵyr bach – Iago – mab i Gwern a Lowri.
- Daeth ŵyr bach hefyd i Eifion a Joy Glyn, Pentyrch, sef Deio plentyn cyntaf i Anna a'i gŵr, Owain, ym Mhontcanna.
- Ac, fel y gwelwch isod, mae yna efeilliaid wedi cyrraedd Treganna - yn wir wedi bod yn eu hoedfa gyntaf! Nia Mererid sydd ar y chwith gyda dad, Geraint Huws, a Ffion Eiddwen sydd ym mreichiau mam, Manon, ar y dde. Dwy wyres arall i Rhian, Ffwrnes Blwm.



## Trefn Suliau ar y cyd ag Efail Isaf

Cofiwch mai bob yn ail Sul bydd yr oedfaon yng Ngwaelod-y-Garth am y Suliau isod:

**Gorff 29** am 10.30 ym Methlehem
Dan ofal Rhodri-Gwynn Jones
*(Efail Isaf yn ymuno â ni)*

**Awst 5** am 10.45 – oedfa yn Efail Isaf
Geraint Rees

**Awst 12** am 10.30 ym Methlehem
Dan ofal Dr Ian Hughes
*(Efail Isaf yn ymuno â ni)*

**Awst 19** am 10.45 – oedfa yn Efail Isaf
Emlyn Davies

**Awst 26** am 10.30 ym Methlehem
Dan ofal Eirlys Davies, Radur
*(Efail Isaf yn ymuno â ni)*

**Gair gan Delwyn**

## "Paul a holl ferched y Plwy !"



I swydd Efrog (Wp North) ry'n ni'n mynd ar ein gwylie 'leni, a dwi'n gobeithio ymweld a Jorvik, a Castle Howard a'r Dales mae'n siŵr.

Ond dwi hefyd am fynd (peidiwch a sôn dim wrth Ann a Meilir) i bentre bach cwbl ddi-nod o'r enw Little Musgrave. Pam? Wel, am fod 'na gân a chysylltiad agos a'r lle. Hen, hen gân o'r canol oesoedd. Dyma'r llinell gynta',

*"It fell upon a Holy day, there's many in the year, Musgrave to the church did go to see fine ladies there."*

O'dd, o'dd, ro'dd Little Musgrave yn dipyn o fachan! Bachan digon tebyg i ryw fardd o'r enw Dafydd ap Gwilym, a o'dd, yn ôl ei eirie fe'i hunan, yn mynychu'r Eglwys yn Llanbadarn er mwyn edrych ar y merched.

"A'm wyneb at y ferch goeth, A'm gwegil at Dduw gwiwgoeth."

Wel wel wel wel wel wel wel ! Beth wete'r diaconied !!! Ond na fe, fe ga's ei "comeuppance", cal ei wrthod na'th e' gan y ferch, a gweddill y merched o'dd yno, sdim rhyfedd bod e' wedi dymuno "Pla ar holl ferched y plwy."

A ma'n siwr 'da fi ei fod e wedi mynychu sawl eglwys arall a gwneud yn gwmws yr un peth wrth iddo deithio o Basaleg (Cwestiwn cwis i chi: Beth yw ystyr yr enw Basaleg?) i Lanbadarn Fawr, o Aberteifi i Niwbwrch, ac wrth deithio mi fyddai'n lletya mewn tai Uchelwyr, tafarndai, ac Abatai. A phan ddaeth diwedd ei daith fe'i rhoddwyd i orwedd o "dan yr ywen brudd" yn Abaty hudol Ystrad Fflur.

Do, fe wna'th Daf ei siâr o deithio ar hyd llwybre'r mynachod, fel na'th y bardd arall hwnnw Williams Pantycelyn rai canrifoedd wedyn ar hyd llwybre'r saint. "Gorllewin, Gogledd, Dwyrain, De". Ac ymhell i'r De canrifoedd ynghynt fe deithiodd Paul ar hyd llwybrau'r Rhufeiniaid. Ydy, ma' teithio'n rhan o'n DNA ni.

Ac felly, a ninne ar drothwy cyfnod y teithio, ga'i ddymuno Haf da i chi gyd, cyn rhoi'r gair ola' i'r teithiwr di flino o Darsus.

"Wrth i ni deithio" medde Paul, "rhaid i ni adael i'r ysbryd ein harwain, a phob cyfle gawn ni, gadewch i ni wneud daioni."

Gwylie gwych i chi gyd, a Joiwch!

**Delwyn Sion**

# Suliau – Haf 2018 hyd Ionawr 2019

**GORFFENNAF**

22 Y Parchg. Robin Samuel
29 Bethlehem -(Rhodri)
Efail Isaf yn ymuno

**AWST**

5 Efail Isaf – Geraint Rees
12 Bethlehem (Dr Ian Hughes)
19 Efail Isaf – Emlyn Davies
26 Bethlehem (Eirlys Davies)

**MEDI**

2 Karen Owen
9 Delwyn Sion - Cymun
16 Y Parchg. Allan Pickard
23 Cwrdd Diolchgarwch
30 Y Parchg. Hywel Wyn Richards

**HYDREF**

**7** Parchg Dafydd Andrew Jones
**14** Parchg Lona Roberts
**21** Delwyn Sion
**28** Oedfa Ardal (Wynford ac Arwel)

**TACHWEDD**

**4** Parchg Ddr R. Alun Evans (Cymun)
**11** Marc John Williams
**18** Delwyn Sion
**25** Parchg Dafydd Owen

**RHAGFYR**

**2** Delwyn Sion (Cymun)
**9** Cartre'r Henoed (bore)
Naw Llith a Charol yn yr hwyr
**16** Ymarfer plant
**23** Pasiant y plant
**30** Ian Hughes

**IONAWR 2019**

**6** Delwyn Sion
**13** Emlyn Davies
**20** Parchg Dafydd Andrew Jones
**27** Parchg Glyn Tudwal Jones


**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**

**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@btinternet.com


## Rydyn ni'n cydymdeimlo â'r canlynol:

- Leah Owen Griffith, Ffynnon Taf, sydd wedi colli ei thad, Terry Dyddgen Jones, Llandaf.
- Eirlys Lamb, Llantrisant wedi colli ewyrth.
- Bethan Cartwright, Penarth, wedi colli ei mam
- Dennis, gwr Eluned Davies Scott, Meisgyn, sydd hefyd wedi colli ei fam.
- Rhiannon Evans, Yr Eglwys Newydd, wedi colli ei brawd-yng-nghyfraith yn Llanfarian.

## Anfonwn ein cofion at y canlynol, sydd heb fod yn dda eu hiechyd:

- Dafydd Huws, Gwaelod-y-garth
- Nia Jones, Ystum Taf
- Yr Athro Glyn O. Phillips, Radur
- Dr. Huw Edwards, Yr Eglwys Newydd
- Vi Jones, Pentyrch

## Dymuniadau gorau i'r canlynol:

- Cyfarchion i deulu Bethlehem yn Seland Newydd – Elen a'i gwr, Scott, wedi symud i Auckland am flwyddyn, ac yn disgwyl y bydd ychwanegiad at y teulu cyn hir. Mae'r Tadcu a Mamgu arfaethedig, Pwt a Delyth Evans, ac aelodau eraill o'r teulu, yno i oruchwilio'r cyfan.
- Kathryn Llewellyn, Yr Eglwys Newydd, a Mair John, Llysfaen, ar eu hymddeoliad.
- Alex Lewis, Radur, fydd yn priodi â Shelley Baker yn y capel ar Orffenaf 27ain, gydag R. Alun Evans yn gweinyddu.
- Leah Owen Griffiths, fydd yn dechrau swydd newydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Allta ym mis Medi.

## Llongyfarchiadau i'r canlynol:

- **Martin Huws,** Ffynnon Taf, ar fuddugoliaeth eisteddfodol arall. Y tro hwn, mae wedi ennill cadair Eisteddfod Llandudoch. Bydd hefyd yn llofnodi ei gyfrol o straeon byrion 'Yr Awyr yn Troi'n Inc' (ddaeth yn ail yn Y Fedal Ryddiaith y llynedd) ar stondin y Cyngor Llyfrau am 4.00 ddydd Mercher y Steddfod
- **Carwyn Wilson Price**, Gwaelod-y-garth, ar gael ei benodi yn athro yn Ysgol Gynradd Gymraeg, Cwmbrân
- **Catrin Manel**, Pentyrch gynt, a'i phriod Jon, ar ennill nifer o wobrau am eu cyfres o bodlediadau am Fabwysiadu, gan gynnwys gwobr aur yn Efrog Newydd.

---

- Diolch i bawb a fu yn y Tabernacl, Yr Ais yn paratoi te i'r digartref (1af o Orffennaf oedd y tro diwethaf), ac hefyd i rhai a fu ar ddyletswydd yn Tafwyl ym Mhabell yr Eglwysi. Hefyd diolch i bawb a fu'n casglu o gwmpas y pentref yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (ac i Ian Hughes am drefnu).
- .... ac mae 'na **15kg o reis** ar ôl yn disgwyl prynwyr!




Sesiwn Hyfforddi ym Methlehem

# Diogelu Grwpiau Bregus

Efallai y cofiwch i'n rhifyn diwethaf gyfeirio at waith "Panel Diogelwch Cydenwadol" Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn cyhoeddi'r "**Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus",** sef *Canllaw ymarferol i bolisi ac ymarfer da yr eglwysi wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac oedolion bregus.*

Er mwyn i Fethlehem gydymffurfio â'r egwyddorion, daeth Louise Edwards (uchod), i gynnal sesiwn gyda nifer dda o aelodau a swyddogion Bethlehem ar Fehefin 5ed. Mae diogelu yn cynnwys yr elfennau canlynol, ac fe ymdrinnir â phob un ohonyn nhw yn y llawlyfr:

- Recriwtio gweithwyr a gwirfoddolwyr yn fwy diogel
- Arferion gwaith da
- Adnabod arwyddion o gam-drin pobl fregus a sut i ymateb i bryderon
- Iechyd a diogelwch

Mae Louise wedi bod yn cynnal sesiynau tebyg ar hyd a lled Cymru gan gynnig arweiniad clir ac ymarferol i'r rheini sy'n gyfrifol am drefnu gweithgareddau gyda grwpiau bregus yn lleol.

Roedd y sesiwn yn un dwys a maith – ac yn agoriad llygaid ar sawl agwedd o'r maes dyrys a chymhleth hwn. Mae yna bellach gopi o'r Llawlyfr ar gael yn y Festri – ac os hoffech chi gael golwg arno, yna gwnewch hynny ar bob cyfrif.

---

# *Cyfrol Ffuglen y Flwyddyn i Catrin*



Diolch i golwg360.cymru am ganiatâd i ddefnyddio'r llun.

***Yn ôl y broliant ar glawr y gyfrol Gwales "Nofel gyffrous a deallus, wedi ei lleoli yng Nghymru y dyfodol agos, gan awdures brofiadol â llais unigryw."***

*Yn amlwg roedd y beirniaid Llyfr y Flwyddyn yn cytuno â hynny eleni ac fe ddyfarnwyd y wobr am gyfrol ffuglen 2018 i wyneb cyfarwydd i ni yma ym Methlehem, sef **Catrin Dafydd, Gwaelod-y-Garth**.*

*Mae'r 'dyfodol agos' dan sylw yn cychwyn yn y flwyddyn 2056!*

*Os nad ydych chi wedi cael copi, brysiwch! Mae'r nofel eisoes mewn ail-argraffiad drwy wasg Y Lolfa.*

*Enillodd Catrin fedal lenyddiaeth yr Urdd yn 2005 a chyhoeddi ei nofel Gymraeg gyntaf yn 2006. Mae hefyd wedi cyhoeddi cyfrolau yn Saesneg ac yn gweithio fel awdur llawrydd.*

*Yn y llun fe welir Catrin yn cael ei holi gan lywydd seremoni Llyfr y Flwyddyn, Y Prifardd Gwion Hallam, (enillydd coron Prifwyl Môn, y llynedd.*

# Gwyn yn cyflwyno creiriau Capel Celyn i Sain Ffagan




**(uchod) Un o'n haelodau diweddaraf, Gwyn Roberts, gyda'r trysorau sydd bellach yn Sain Ffagan.**

**Mae Gwyn a Marian Roberts, sydd bellach wedi ymgartrefu yn ein plith, nawr yn byw o fewn ychydig filltiroedd i Sain Ffagan. Ond cysylltiad Gwyn â phentref enwog Capel Celyn a'r ysgol gynradd yno oedd tu ôl i seremoni yn yr Amgueddfa Werin, yn niwedd Mai, lle bu'n cyflwyno rhai o drysorau'r teulu i ofal y sefydliad.**

Roedd mam Gwyn Roberts, y diweddar Martha Roberts, yn brifathrawes Ysgol Capel Celyn rhwng 1957 a 1963. Prin bod angen egluro fod Capel Celyn bellach dan gronfa ddŵr Tryweryn, godwyd gan Gyngor Lerpwl ac a'i hagor ym 1965.

Bellach mae eitemau, sy'n cynnwys cloch, allwedd a lamp yr ysgol , ynghyd â dwy lamp o'r capel, wedi cael eu rhoi i'r Amgueddfa Werin gan Gwyn a'i ferched, Nia Erain Griffith a Lois Elenid John, er mwyn i genedlaethau'r dyfodol "ddysgu a chofio" am Gapel Celyn.

Yn ôl Gwyn, "Er bod y creiriau hyn yn rhan o hanes ein teulu, ac yn ddolen fyw rhyngom a thrasiedi chwalu Capel Celyn, roeddem yn ymwybodol eu bod hefyd o bwysigrwydd cenedlaethol. Pleser yw eu cyflwyno i ofal Sain Ffagan yn y gobaith y byddan nhw'n fodd i ymwelwyr y dyfodol ymdeimlo â thristwch colli brwydr y boddi. Er hynny, fel yr oedd Mam yn cael boddhad o ddweud dro ar ôl tro wrth blant yr ysgol, 'Cymru biau'r dŵr rŵan, a ni ddaru ennill yn y diwedd!'"

***Y CWRDD MERCHED***

# Taith i Ddiweddu'r Tymor



Ar fore braf o Mehefin 12, teithiodd y merched i Faenordy Llancaeach, Nelson, Sir Caerffili. Buom yn ffodus iawn i gael arweiniad i hanes a nodweddion pensaernïol yr adeilad gan y Pensaer Alwyn Harding Jones. Mae cysylltiad Alwyn a'r adeilad hynafol yn mynd nol i ddechrau 80'au'r ganrif ddiwethaf. Diddorol iawn oedd gwrando ar Alwyn yn egluro sut y llwyddwyd i adfer y Maenordy i'w gyflwr presennol. Ychwanegiad gwerthfawr i'r safle erbyn hyn yw'r Ganolfan Ddehongli newydd, sydd wedi ei chynllunio a'i chyflwyno'n broffesiynol iawn. Sicrhaodd Alwyn fod Cymro Cymraeg yn dehongli bywyd bob dydd y Maenordy i ni mewn dull nodweddiadol o'r ail ganrif ar bymtheg. Roeddem wedi dysgu cymaint mewn ychydig oriau! Erbyn 1 o'r gloch roedd pawb yn barod am luniaeth, ac roedd Rhian Huws wedi trefnu i ni gael pryd blasus gerllaw yn y Railway Inn, Llanfabon. Diolch arbennig i Alwyn am daith gofiadwy iawn i Lancaeach.

***Eirlys Davies (Radur)***

***Dewis Elusen ar gyfer tymor 2018/19:***

# Cyfle i fwrw eich pleidlais i'r Elusen Leol

Yn dilyn y patrwm a sefydlwyd beth amser yn ôl bellach, gwahoddwyd pawb ohonoch i gynnig enwau elusennau i'w hystyried ar gyfer cefnogaeth fel ein dewis elusen leol ar gyfer tymor 2018/19. Yn dilyn enwebiadau gan yr aelodau ar Sul y 1af o Orffennaf 2018, daeth y tair elusen isod i'r brig.
Bwriedir cynnal pleidlais i benderfynu pa un o'r tair elusen fydd ein dewis, a gwahoddwn chwi i wneud hynny ar Sul y 9fed o Fedi 2018. Felly, dyma ychydig o fanylion ar y tair elusen:

**Canolfan Ganser Felindre**
**Heol Felindre,**
**Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.**

"'Rydym yn ganolfan trin canser arbenigol sydd wedi'i lleoli ar gyrion Caerdydd. Rydym yn darparu gwasanaethau canser arbenigol i dros 1.5 miliwn o bobl ar draws De-ddwyrain Cymru a thu hwnt. Rydym yn trin dros 5,000 o gleifion canser newydd bob blwyddyn a thua 50,000 o gleifion allanol. Mae ein tîm ymroddgar o dros 670 o staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.
Ein nod yw darparu'r gofal a'r driniaeth gorau posibl i chi a'ch teulu."

Am fwy o wybodaeth: www.velindrecc.wales.nhs.uk/hafan

**Dyma'r dewis ar fore Sul ...**

**Canolfan y Drindod, Caerdydd:**

Mae Canolfan y Drindod, Caerdydd yn bodoli er mwyn cefnogi'r anghenus mewn cymdeithas, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'n gweithio i dorri'r rhwystrau sy'n gwahanu cymunedau trwy adeiladu cyd-ddealltwriaeth, parch ac ymddiriedaeth.
Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein
cymuned i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, mynd i'r afael â thlodi ac yn
cefnogi pobl i greu a gweithredu cynlluniau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd.
Lleolir y Ganolfan mewn hen eglwys ar gornel Four Elms Road, nepell o ganol y ddinas.
Gweinyddir y Ganolfan gan Fflur Angharad ac o dan ei harweiniad hi bydd safle we ar gael yn y Gymraeg yn fuan, yn ogystal â Saesneg.
Mae Canolfan y Drindod yn elusen o Gylchdaith Fethodistaidd Caerdydd, ond fe'i cefnogir gan bobl o bob ffydd neu ddim.

Am fwy o wybodaeth: www.trinitycentre.wales

**Canolfan y Wallich,**
**Heol y Gadeirlan, Caerdydd:**

"Fe groesawn unrhyw un" yw'r gri gan Ganolfan Wallich ers 1978.
"Credwn bod pob un a hawl i gartref, ond yn ogystal bod pawb yn haeddu teimlo'n ddiogel, bod gwerth i'w bywyd, a hawl i deimlo'n gadarnhaol ynglŷn a'u dyfodol.
Ein nod yw:-

- Cael y digartref oddi ar y stryd
- Eu cadw oddi ar y stryd
- Creu cyfleoedd trwy **hyfforddiant, dysg a gwaith er datblygu sgiliau cynhenid neu sgiliau newydd"**

Am fwy o wybodaeth: www.thewallich.com

**... Medi'r 9fed (Bore'r Cymun)**

# UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Ysgrifennydd Gweinyddol:
Miss Eirwen Ann Williams, A.C.I.B.
e-bost: ann@annibynwyr.org
Ysgrifennydd Cyffredinol:
Y Parchg Ddr Geraint Tudur, B.D.
e-bost: geraint@annibynwyr.org

Tŷ John Penri
5 Axis Court
Parc Busnes Glanyrafon
Bro Abertawe
Abertawe
SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
Ffacs: 01792 795376
e-bost: undeb@annibynwyr.org
www.annibynwyr.org

Rhodri-Gwynn Jones,
4 Maes-y-Sarn,
Pentyrch,
Caerdydd.
CF15 9QQ

9 Gorffennaf 2018

***Ar gais y Cwrdd Diaconiaid, ac ar ran aelodau a chyfeillion Bethlehem, Gwaelod-y-garth, fe anfonwyd pwt o ddiolch i Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Y Parchedig Ddr Geraint Tudur, wrth iddo baratoi am ei ymddeoliad, yn gydnabyddiaeth o'i waith a'i ofal drosom yn ystod y deuddeg mlynedd diwethaf yma. Fe gofiwch y bydd ei olynydd, Y Parchedig Dyfrig Rees, yn dechrau ar ei waith yntau ym mis Medi 2018. Derbyniwyd yr ymateb hwn ac mae'n ddilys ei rannu â chwi yn y Bwletin.***

Annwyl Rhodri,

Dim ond gair byr i ddiolch yn ddiffuant i chwi am y llythyr eithriadol o garedig y bu i chwi ei anfon ataf ym mis Mehefin. Ymddiheuriadau mawr am yr oedi cyn ymateb ond, fel y gwyddoch, yr ydym fel Undeb newydd fod wrthi'n dathlu daucanmlwyddiant glaniad cenhadon o Geredigion ym Madagascar, a rhwng cynnal y cyfarfodydd, gofalu am yr ymwelwyr a pharatoi adroddiadau a chofnodion hanesyddol o'r digwyddiadau wedi hynny, mae'r dyddiau a'r wythnosau wedi llithro heibio bron yn ddiarwybod i ni.

Yr oedd derbyn eich dymuniadau da ar gyfer f'ymddeoliad a'ch gwerthfawrogiad hael o'm hymdrechion dros y deuddeng mlynedd ddiwethaf yn rhywbeth a gyffyrddodd â mi yn fawr. Nid wyf fel arfer yn ystyried fy hun yn un teimladwy, ond ar yr achlysur hwn ni allaf wadu i chwi dynnu deigryn i'm llygad. Mae caredigrwydd bod amser yn gallu bod yn rhywbeth sy'n ein symud, ond pan fo'r caredigrwydd hwnnw'n adlewyrchu haelioni ysbryd mawr, yn dod o gyfeiriad cwbl annisgwyl ac hwnnw'n gyfeiriad sydd ag arwyddocâd arbennig o ddwys iddo, yr adeg honno mae'n gallu'n llethu, ond gwneud hynny'n y modd hyfrytaf posibl.

Diolch i chwi, felly, ac i aelodau a chyfeillion Bethlehem, Gwaelod-y-Garth, am beri llawenydd i un sy'n cyrraedd pen talar. Gallaf eich sicrhau fy mod wedi gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Boed bendith arnoch fel eglwys yn eich gwaith, ac ar bob un o fewn yr eglwys sy'n ymroi i gyflawni gwaith y Deyrnas a chynnal achos Iesu Grist.

Gyda chofion cynnes a diolch mawr,

Geraint